ATODLEN 5

Safonau sy'n ymdrin â Materion Atodol

# RHAN 5

## DEHONGLI'R SAFONAU

| | |
|---|---|
| **21** | Rhaid dehongli'r safonau a bennir yn Rhannau 1 i 4 fel a ganlyn. |
| **22** | At ddibenion safonau 166, 172 a 178, ystyr "blwyddyn ariannol" yw blwyddyn ariannol y corff ei hun. |
| **23** | At ddibenion y safonau, nid yw gofyniad i lunio neu gyhoeddi unrhyw ddeunydd ysgrifenedig yn Gymraeg yn golygu y dylid llunio neu gyhoeddi'r deunydd hwnnw yn Gymraeg yn unig, ac nid yw'n golygu ychwaith y dylid llunio'r deunydd yn Gymraeg yn gyntaf (oni nodir hynny yn benodol yn y safon). |